**Eitem ar yr agenda: 3(i)**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Mawrth, Rhagfyr 12fed 2006 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 9.35 y bore.

**Yn bresennol:**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| E C George (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); A Wright (Swyddog Monitro dros dro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); D Docx (Prif Swyddog Cynorthwyol, Cyllid a Chaffael); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); W A Murphy (Uwch Reolwr Gweithrediadau); K Hughes (Uwch Reolwr Diogelwch); D G Roberts (Rheolwr Prosiect y System Ddyletswydd Ran Amser); L Roberts (Rheolwr yr Ystafell Reoli Tân); A Edwards (Rheolwr Diogelwch Sir Ddinbych); Stephen Roberts (Pennaeth yr Adran Rheoli Adnoddau) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

## RHAN I

### 1) Ymddiheuriadau

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

| | |
|---|---|
| I R Miller | Clerc a Swyddog Monitro |
| J Kennedy | Dirprwy Swyddog Monitro |
| C Enness | Dirprwy Brif Swyddog Tân |

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Mrs Alison Wright, y Swyddog Monitro dros dro, i'w chyfarfod cyntaf.

**2) Rhybudd o Faterion Brys**

Cafodd yr aelodau wybod gan y Cadeirydd na dderbyniodd y Clerc nag ef unrhyw eitemau ar gyfer eu hystyried.

**3) Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar Fedi 21ain 2006.
ii. Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar Hydref 9fed 2006

***Penderfynwyd*: - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion**

**4) Materion yn codi**

Roedd y materion canlynol yn codi o'r cofnodion:

**Panel Gweithredol 21ain Medi 2006:**
**Tud. 2 – Materion yn codi, Cyd-ymateb:** Atgoffwyd yr aelodau gan y Prif Swyddog Tân fod yr Uchel Lys wedi dyfarnu o blaid Undeb y Brigadau (FBU) yn yr achos a ddygwyd gan yr Undeb yn erbyn Awdurdodau Tân ac Achub Swydd Nottingham a Swydd Lincoln mewn perthynas â chyd-ymateb ac yn arbennig drefniadau cytundebol y Cytundeb Cyflog ac Amodau Gwasanaeth 2003. Er bod y barnwr wedi mynegi mai bychan iawn fyddai'r gobaith i apêl fod yn llwyddiannus, roedd y ddau awdurdod, er hynny, wedi cyflwyno apêl yn erbyn dyfarniad yr Uchel Lys. Cafodd yr aelodau wybod ei bod yn debygol y byddid yn gofyn i'r Awdurdod am gyfraniad at gostau'r apêl, fel at yr achos gwreiddiol. Dywedodd y Cadeirydd fod dyddiad ym mis Chwefror 2007 wedi ei bennu ar gyfer gwrando ar yr apêl, a'i fod wedi cael ar ddeall mai apêl â chostau sefydlog y byddai. Mynegodd yr aelodau eu parodrwydd i'r Awdurdod gyfrannu swm penodol at gostau'r apêl. I ateb cais gan y Cynghorydd W J Chorlton fod yr Awdurdod yn ystyried sefyllfa'r Gwasanaeth Ambiwlans yn y Gogledd cyn iddo fwrw ymlaen gyda threialu cyd-ymateb yn yr ardal, dywedodd y Prif Swyddog Tân fod y treialon hyn ar stop gan ddisgwyl am ganlyniad yr achos yn yr Uchel Lys a'r apêl. Felly:

***Penderfynwyd*: -**

i. ***na ddylai Awdurdod Tan ac Achub Gogledd Cymru fwrw ymlaen â'r treialon cyd-ymateb oedd yn yr arfaeth hyd nes y byddai canlyniad apêl***

***Awdurdodau Tân ac Achub Swydd Nottingham a Swydd Lincoln yn erbyn dyfarniad yr Uchel Lys mewn perthynas â threfniadau cytundebol Cytundeb Cyflog ac Amodau Gwasanaeth 2003 yn wybyddus; ac***

***ii. os bydd y Cyd-Gyngor yn gofyn am gyfraniad gan yr Awdurdod tuag at gostau'r awdurdodau uchod am gyflwyno'r apêl, y byddai'r Awdurdod yn barod i gyfrannu hyd at uchafswm o £2,000 tuag at y costau hyn.***

9.50am Daeth y Cynghorydd J A Roberts i mewn i'r cyfarfod yn y fan hon.

**Tud. 5 - Eitem 8, Pennu arbedion effeithlonrwydd yn 2006/07 i ymorol am y broses o gymhathu o rengoedd i rolau:** I ateb cwestiwn gan y Cynghorydd W J Chorlton ynghylch y broses o gymhathu o rengoedd i rolau, cafodd yr aelodau wybod gan y Cadeirydd fod adroddiad ynghylch y pwnc i fod i gael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ar Ragfyr 18fed 2006.

## 5) Cyllideb y Gwasanaeth Tân ac Achub 2007/08

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi'r cefndir i'r aelodau am yr hyn yr oedd yr Awdurdod wedi gorfod llunio ei gyllideb refeniw a chyfalaf ar gyfer 2007/08 yn ei erbyn. Esboniodd fod y gyllideb ddrafft, a oedd i fod i gael ei chyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ar Ragfyr 18fed 2006, wedi ei llunio gan ystyried nifer o ffactorau gwahanol. Roedd y rhain yn cynnwys cynnydd cyfartalog disgwyliedig yn y Grant Cefnogi Refeniw (RSG) o 3.85% drwy Ogledd Cymru, yr arbedion effeithlonrwydd a oedd yn ofynnol gan y llywodraeth ganolog, y dull newydd o gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân o Ebrill 2007 ymlaen, a'r ansicrwydd parthed swm y dyfarniad cyflog a oedd i fod i gael ei ddyfarnu i ddiffoddwyr tân o Orffennaf 1af 2007 ymlaen. Rhan ychwanegol yr oedd raid ei chynnwys yng nghyllideb 2007/08 oedd y ffaith y byddai'r diffoddwyr tân rhan amser yn gymwys i ymuno â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân o Ebrill 2007 ymlaen. Roedd hyn yn golygu elfen o ansicrwydd yn y broses o bennu'r gyllideb gan nad oedd modd, ar hyn o bryd, o ragweld lefel ymuno o blith y staff rhan amser â'r Cynllun ac felly, y goblygiadau o ran cost i'r Awdurdod. Rhoddodd y Trysorydd wybod i'r aelodau bod darpariaeth wedi ei gwneud o fewn y gyllideb ddrafft at gyfraniadau posib ar ran staff rhan amser i'r Cynllun newydd, gyda'r bwriad o leddfu unrhyw effaith ariannol posib a grëwyd gan yr ansicrwydd hwn. Aeth yn ei flaen i esbonio bod y tanwariant o'r flwyddyn gyfredol wedi ei ddiystyru at ddiben pennu cyllideb 2007/08 gan fod angen i'r Awdurdod dorri'r cylch o ddibynnu ar danwariannau'r blynyddoedd a fu fel sylfaen i gyllideb y flwyddyn ganlynol. Yn y blynyddoedd a fu, roedd rhan o'r tanwariant wedi ei neilltuo i Ddarpariaeth ar gyfer Pensiynau'r Awdurdod, ond gan bod y trefniadau ariannol ar gyfer y Cynllun Pensiynau i fod i newid yn Ebrill 2007 roedd bwriad i ddychwelyd rhywfaint o arian y Ddarpariaeth i'r awdurdodau cyfansoddol. Roedd y bwriad hwn yn destun adroddiad arall ar agenda'r cyfarfod hwn. Cafodd yr aelodau wybod gan y Trysorydd y byddai gofyn i'r Awdurdod, oherwydd cyfres gymhleth o newidiadau a oedd yn cynnwys effaith pensiynau'r diffoddwyr tân, gymeradwyo cyllideb ar gyfer 2007/08 a oedd a lle cyfyngedig i dyfu. O ganlyniad, byddai raid i unrhyw

brosiectau newydd eu hariannu eu hunain. Rhoddodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) wybod i'r aelodau mai proses y Cynllunio Lleihau Risg fyddai dechrau'r broses o bennu'r gyllideb mewn gwirionedd. Felly, y gyfres nesaf o gyfarfodydd Gweithgor y Cynllun Lleihau Risg, a oedd i fod yn ddechrau yn gynnar yn 2007, fyddai dechrau'r broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2008/09, gan mai trwy broses y Cynllun Lleihau Risg y byddai nodau, blaenoriaethau ac arbedion yr Awdurdod yn cael eu nodi, eu cymeradwyo a'u gweithredu. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi cynnwys yr adroddiad a gwneud y broses o bennu'r gyllideb yn y blynyddoedd i ddod yn rhan o broses y Cynllun Lleihau Risg, gyda trafodaethau am fwriadau'r gyllideb ddrafft ac arbedion effeithlonrwydd yn cael eu cynnal yng nghyfarfodydd y Panel Gweithredol cyn cyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr.***

## 6) Materion y Gronfa Bensiwn wrth gefn a'r awdurdodau cyfansoddol

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) a oedd, i ateb cais yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar Hydref 23ain, yn rhestru'r symiau ariannol y gellid eu dychwelyd i'r awdurdodau cyfansoddol o Ddarpariaeth yr Awdurdod ar gyfer Pensiynau. Esboniodd fod yr adroddiad yn nodi balans cyfredol y Ddarpariaeth, yn cynnwys amcangyfrif o'r swm y byddai angen ei gadw i ariannu ymrwymiadau posib yn y dyfodol o ran pensiynau, yn nodi'r swm a argymhellir ei gadw ar gyfer costau sefydlu Ystafell Reoli i'r Tri Gwasanaeth yn y dyfodol, a'r symiau y gellid eu had-dalu i bob un o'r awdurdodau cyfansoddol yn seiliedig ar ffigurau poblogaeth canol blwyddyn 2004. Yn ei dyb ef, gellid talu cyfanswm o £1 miliwn i'r awdurdodau cyfansoddol. Roedd manylion y symiau taladwy arfaethedig wedi eu dosbarthu i Drysoryddion yr awdurdodau cyfansoddol, a hyd yn hyn, ni ddaeth unrhyw wrthwynebiad i law ynghylch y ffigurau ad-dalu arfaethedig. I ateb cwestiwn yn gofyn a fyddai'r swm y byddai'r Awdurdod yn ei gadw yn ddigon i ymorol am holl gostau'r broses o gymhathu o rengoedd i rolau petai angen, dywedodd y Trysorydd mai'r awdurdodau cyfansoddol oedd yn berchen ar arian y Ddarpariaeth ar gyfer Pensiynau mewn gwirionedd, a bod y broses o gymhathu o rengoedd i rolau i fod i'w hariannu ei hun. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: – argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub, yn ei gyfarfod ar Ragfyr 18fed:***

- ***i. y dylai gadw £665,000 o'r Ddarpariaeth ar gyfer Pensiynau at ymrwymiadau yn y dyfodol o ran pensiynau;***
- ***ii. y dylai £127,000 o'r Ddarpariaeth ar gyfer Pensiynau gael ei ddefnyddio i ariannu costau sefydlu'r Ystafell Reoli ar gyfer y Tri Gwasanaeth, os cytunir y bydd y cynllun yn mynd rhagddo; ac***
- ***iii. ad-dalu £1,000,000 o'r Ddarpariaeth ar gyfer Pensiynau i'r awdurdodau cyfansoddol.***

## 7) Materion Brys

Dim.

## 8) Dyddiad(au) cyfarfodydd yn y dyfodol

Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r aelodau y byddai angen i'r Awdurdod ddechrau ar ei broses Gynllunio i Leihau Risg ar gyfer 2008/09 cyn bo hir. Roedd hefyd o'r farn y gallai Gweithgor y Cynllun Lleihau Risg ddefnyddio'i amser yn fwy effeithiol trwy beidio â chynnal ei gyfarfodydd ar yr un diwrnod â chyfarfodydd y Panel Gweithredol lle bo modd. Y disgwyl oedd y byddai angen i Weithgor y Cynllun Lleihau Risg gwrdd bob mis rhwng Ionawr ac Ebrill 2007. Wedi trafodaeth:

***<u>Penderfynwyd</u>: - cynnal cyfarfod nesaf y Panel Gweithredol ddydd Mercher, Ionawr 24ain 2007 a chyfarfod nesaf Gweithgor y Cynllun Lleihau Risg ddydd Mawrth, Ionawr 30ain 2007. Y ddau gyfarfod i ddechrau am 10 y bore, ac i'w cynnal ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy.***

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau mai'r argymhelliad oedd trafod yr eitemau oedd yn weddill ar agenda fusnes y cyfarfod heb y cyhoedd na'r Wasg yn bresennol. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth drafod yr eitemau busnes canlynol gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt fel y diffinnir ym Mharagraffau 1, 8, 9 a 10 o Ran I o Atodlen12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.***

**<u>RHAN II</u>**

## 9) "Tân Cyntaf" – Prosiect Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl

Cyn cyflwyno ei adroddiad, aeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) ati i gyflwyno Mr Alyn Edwards i'r aelodau, sef Rheolwr Diogelwch ardal Sir Ddinbych gyda'r Gwasanaeth. Yna, rhoddodd Mr Edwards gyflwyniad i'r aelodau am "Tân Cyntaf" – Prosiect Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl. Yn ei gyflwyniad, rhoddodd Mr Edwards amlinelliad o gefndir y prosiect, y gwaith ymchwil a wnaed gan Fwrdd y Prosiect, oedd yn cynnwys ymweld â gwahanol fathau o orsafoedd tân cymunedol ledled Prydain, manylion y partneriaethau a grëwyd gyda'r gwahanol asiantaethau a sefydliadau yn Sir Ddinbych oedd wedi dangos diddordeb mewn defnyddio'r adnoddau a fyddai ar gael, a manylion y broses o ymgysylltu â'r gymuned leol yn ystod y diwrnod agored yn yr orsaf. Trwy gyfrwng sleidiau, roedd yr aelodau'n gallu gweld yr adnoddau a fyddai ar gael yn yr orsaf newydd i'r staff a'r cyhoedd, argraff arlunydd o'r orsaf dân wedi iddi gael ei hadeiladu, a chynlluniau lloriau'r orsaf.

Yna, cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn rhoi'r diweddaraf am y prosiect. Yn ogystal â'r manylion am y llif arian oedd wedi eu sicrhau eisoes at y prosiect, roedd yr adroddiad yn rhoi'r amserlen ar gyfer y rhaglen adeiladu. Yn dilyn cyfarfod diwethaf y Panel ar Hydref 9fed 2006, roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn Llywodraeth y Cynulliad i geisio cadarnhad o swm yr arian grant yr oedd y Llywodraeth yn barod i'w gyfrannu at y prosiect. Roedd copi o ateb y Gweinidog ynghlwm i'r adroddiad. Ynddo, roedd yn dweud bod Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig yn ffurfiol gefnogaeth ariannol hyd at gyfanswm o £400,000 at y prosiect o'i Gyllideb ar gyfer Diogelwch Tân Cymunedol. Cyn y cyfarfod, derbyniwyd cadarnhad gan yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau (a ddaeth yn lle Awdurdod Datblygu Cymru/WDA) ei fod yn fodlon cefnogi'r prosiect a rhoi Grant Amgylcheddol a Gwella Trefi at y gwaith adeiladu allanol. Roedd gwaith wrthi'n cael ei wneud i lunio ceisiadau am arian o ffynonellau eraill. Hefyd, aeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) drwy'r goblygiadau ariannol i'r Awdurdod o roi gorau i brosiect yr orsaf dân gymunedol nawr, a dim ond adnewyddu'r orsaf dân. Petai penderfyniad o'r fath yn cael ei wneud, ni fyddai'r arian grant ar gael gan y byddai'r elfen gymunedol o'r prosiect yn cael ei ddwyn ymaith.

Diolchodd y Cynghorydd J A Smith, un o aelodau Bwrdd y Prosiect, i bawb oedd yn rhan o'r prosiect am eu gwaith caled. Pwysleisiodd mor bwysig oedd y prosiect i'r Rhyl, a'r Gogledd yn gyffredinol. Yn ei dyb ef, byddai'r math yma o adnodd yn gymorth i'r Gwasanaeth ymgysylltu â phobl sy'n agored i beryglon a rhai sy'n anodd eu cyrraedd yn y gymuned. Roedd y niferoedd oedd wedi mynychu'r diwrnod agored yn tystio i obeithion a dyheadau'r gymuned leol o'r prosiect. Petai'r prosiect yn llwyddiant, gellid sefydlu adnoddau tebyg ledled y Gogledd pan fyddai gorsafoedd yn cael eu hadnewyddu ac yn dibynnu ar anghenion yn lleol.

Roedd y Cynghorydd J Vaughan yn cydnabod y gwaith oedd wedi mynd i mewn i'r prosiect, ond roedd yn pwysleisio bod ganddi yn dal ei hamheuon am hyfywedd economaidd y prosiect a'i gynaladwyedd yn y tymor hir, yn enwedig o ystyried y ffaith mai elusennau cofrestredig neu asiantaethau llywodraeth leol oedd y rhan fwyaf o'r partïon a'r sefydliadau oedd wedi eu rhestru fel defnyddwyr posib i'r adnoddau. Roedd y Cynghorydd W J Chorlton yn adleisio'r teimladau hyn. I ymateb i'r sylwadau hyn, dywedodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) wrth y Panel ei bod yn anodd tu hwnt i fesur lefel y diddordeb a'r sefydliadau allanol a fyddai o bosib yn dod yn ddefnyddwyr cyn i'r adnodd fynd yn ei flaen. Roedd yr Is-Gadeirydd o'r farn y dylid cefnogi'r prosiect gan fod dirfawr angen adnewyddu ac uwchraddio'r adnoddau i'r staff. Cefnogwyd y farn hon gan y Cynghorydd J A Roberts. Pan bleidleisiwyd, trwy fwyafrif:

***<u>Penderfynwyd</u>: - argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod nesaf:***

*i. ei fod yn cymeradwyo ariannu'r prosiect hwn i'r swm o £2.482 miliwn er mwyn gallu edrych am dendrau cystadleuol gan gontractwyr adeiladu;*
*ii. ei fod yn cadarnhau mai Opsiwn 2 yw'r opsiwn ariannu ffafriol; a*
*iii. bod yr adroddiad a gyflwynir i'r Awdurdod ar Ragfyr 18fed 2006 yn cynnwys amcangyfrif o gostau ochr gymunedol y prosiect.*

**10) Ystafell Reoli i'r Tri Gwasanaeth**

Rhoddodd y Prif Swyddog Tân y diweddaraf ar lafar i'r Panel am y sefyllfa bresennol o ran sefydlu Ystafell Reoli ar gyfer y Tri Gwasanaeth. Cafodd yr aelodau wybod bod Llywodraeth y Cynulliad o blaid canolfan reoli i'r tri gwasanaeth yn y Gogledd, ond ei bod yn ymddangos ar hyn o bryd fod swyddogion a gwleidyddion o'r Gwasanaeth Iechyd ac Ymddiriedolaeth G.I.G. y Gwasanaethau Ambiwlans yn dal yn rhyw gyndyn i gefnogi'r prosiect. Roedd y Gweinidog wedi awgrymu yn ddiweddar ei bod yn obeithiol y byddai'r mater yn siŵr o gael ei ddatrys yn y pendraw.

Dywedodd y Prif Swyddog Tân hefyd wrth yr aelodau ei fod yn bwriadu dod ag adroddiad gerbron y Panel yn ei gyfarfod nesaf ynghylch materion sy'n ymwneud â lleoliad ail ystafell reoli'r Gwasanaeth a'i adnoddau cysylltu â system 'Firelink'.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.20 y bore.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** T Roberts **Dyddiedig:** 24 Ionawr, 2007